

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
11 CHWEFROR 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd drwy fynychu o bell ddydd Iau, 11 Chwefror 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Richard Jones, Paul Shotton, Andy Williams ac Arnold Woolley

DIRPRWY: Y Cynghorydd: Paul Johnson (ar ran Kevin Rush)

HEFYD YN BRESENNOL: Roedd Mark Morgan (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau) yn bresennol fel arsylwr

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg), Y Cynghorydd Carolyn Thomas (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad) Y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau), Y Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Cabinet Cyllid), Y Cynghorydd Chris Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, ac Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a Chyfrifydd.

Ymgynghorydd Perfformiad Strategol – ar gyfer cofnod rhif 60
Rheolwr Cyllid Strategol – ar gyfer cofnod rhif 61
Rheolwr Cyllid – ar gyfer cofnod rhif 62

Ar gyfer cofnod rhif 57

Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes (Siân Jones), Arweinydd Tîm Diogelwch Cymunedol (Richard Powell), Cydlynnydd Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Rhiannon Edwards), Swyddog Diogelwch Cymunedol (Peter Shakespeare), Swyddog Comisiynu a Datblygu Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol (Paul Firth) a'r Prif Arolygydd Siobhan Edwards o Heddlu Gogledd Cymru.

HEFYD YN BRESENNOL: Pennaeth y Gwasanaethau Democraidd a Swyddogion Gwasanaethau Democraidd

54. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr Aelodau canlynol gysylltiad personol ag Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (eitem rhif 5 ar y rhaglen):

- Y Cynghorydd Dunbobbin – aelod o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Llysgennad Rhuban Gwyn.
- Y Cynghorydd Woolley – aelod o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.
- Y Cynghorydd Shotton - aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

- Y Cynghorydd Bithell – Ymddiriedolwr yr Uned Ddiogelwch Cam-Drin Domestig.

55. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 14 Ionawr 2021, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Shotton a Collett.

Ar gofnod rhif 51, roedd sylwadau am ddatrysiad ariannu cenedlaethol ar Leoliadau y Tu Allan i'r Sir wedi'u cynnwys yn ymateb y Cyngor i Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

56. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn nodi cynnydd ar gamau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Dunbobbin ac Eastwood.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

57. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a oedd yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r 12 mis diwethaf. Yn dilyn newidiadau i drefniadau llywodraethu, roedd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol dan nawdd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bellach ac roedd yn cyflawni ei dyletswyddau trwy'r Bwrdd 'Mae Pobl yn Ddiogel'. Roedd gwaith y Bwrdd wedi'i ategu trwy weithredu cynllun cyflenwi lleol.

Rhoddodd y Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes gyflwyniad a oedd yn cwmpasu:

- Cyd-destun
- Grwpiau Cyflawni Diogelwch Cymunedol
- Blaenoriaethau lleol ar gyfer 2020/21
- Trosedd ac Anhrefn – sefyllfa bresennol (o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)
- Partneriaethau Rhanbarthol

Wrth groesawu'r adroddiad a'r cyflwyniad, cynigiodd y Cynghorydd Heesom yr argymhelliad.

Dyweddod y Cyngorydd Jones y byddai cynnwys niferoedd gyda chanrannau ar newidiadau o ran tueddiadau yn helpu i ddarparu cyd-destun. Cytunodd y swyddogion i rannu'r wybodaeth hon ar ôl y cyfarfod.

Gan ymateb i sylwadau gan y Cyngorydd Dunbobbin dywedodd y Prif Weithredwr fod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn dal i fod yn flaenoriaeth a bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir y Fflint yn cael ei gydnabod fel cyflawnydd cryf. Rhoddodd eglurhad am atebolrwydd a threfniadau adrodd.

Wrth gynrychioli'r Bwrdd Cynllunio Ardal, rhoddodd Paul Firth sicrwydd am gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i gefnogi'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar feysydd blaenoriaeth fel trais domestig a throseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol/cyffuriau.

Wrth ateb cwestiwn gan y Cyngorydd Johnson, rhoddodd y Prif Arolygydd Siobhan Edwards wybodaeth am y Grŵp Cydlyniant Cymunedol a oedd wedi'i sefydlu i ddeall materion cymunedol ar ddechrau'r sefyllfa frys ar draws Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Diolchodd y Cyngorydd Bibby i swyddogion am eu gwaith ac ymgysylltu â'r gymuned, yn enwedig y grŵp amlasiantaeth 'Visible and Vulnerable'. Diolchodd i'r Swyddog Diogelwch Cymunedol a oedd newydd ei benodi hefyd am ei gymorth ar faterion sy'n ymwneud â'r ward.

Fel Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, siaradodd y Cyngorydd Bithell am bwysigrwydd dull amlasiantaeth i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth a hyrwyddo diogelwch mewn cymunedau.

Ar ôl cael ei gynnig eisoes, cafodd yr argymhelliad ei eilio gan y Cyngorydd Bibby.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfranwyr am eu presenoldeb.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn cefnogi cynnwys yr adroddiad.

58. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr eitemau a oedd ar raglen y cyfarfod nesaf a byddai'n cysylltu â swyddogion i lenwi'r rhaglen wedi hynny.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cyngorydd Dunbobbin, ac fe'u heiliwyd gan y Cyngorydd Bibby.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

- (b) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

59. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH ADFER

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i ddiweddarau'r Pwyllgor ar gofrestr risg portffolios Corfforaethol a dulliau lliniaru fel rhan o'r broses cynllunio adfer.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol ac Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol drosolwg o'r prif newidiadau a'r materion presennol am risg ac adferiad o fewn eu portffolios perthnasol.

Gan ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Jones, rhoddodd swyddogion eglurhad am y sgôr risg ar gyfer CF18, sy'n ymwneud ag effaith ariannol y sefyllfa frys. O ran gostyngiad o ran lefelau casglu Treth y Cyngor (CF08), roedd y duedd o ran risg a'r risg waelodol yn adlewyrchu'r effaith o'r sefyllfa frys, a oedd yn cael ei lliniaru ar hyn o bryd trwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru (LIC).

Diolchodd y Cynghorydd Mullin i swyddogion a mynegodd bryderon am effaith y sefyllfa frys am lwyth gwaith gweithwyr, a lefelau casglu Treth y Cyngor yn y dyfodol hefyd. O ran gweithlu, nodwyd y bu cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn dilyn cyrsiau sy'n ymwneud â straen.

Ar gais y Cynghorydd Heesom, cytunodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) i ddarparu rhagor o wybodaeth i Aelodau am y broses o newid i ddefnyddio Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd o bell.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Jones, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Heesom.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn derbyn y gofrestr risg ddiweddaraf a chymau lliniaru risg o fewn y portffolios corfforaethol.

60. CYNLLUN Y CYNGOR 2021/22

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad am ddrafft Rhan Un o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22. Cafodd y fframwaith dechreuol hwn ei adeiladu o amgylch strwythur newydd chwe thema (pob un â blaenoriaethau ac is-flaenoriaethau):

- Economi
- Addysg a Sgiliau
- Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Lles Personol a Chymunedol
- Tlodi

Ar hyn o bryd, roedd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn adolygu cynnwys eu meysydd blaenoriaeth ac is-flaenoriaeth perthnasol cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet. Y dull a gytunwyd oedd i Bwyllgorau graffu ar berfformiad eu meysydd perthnasol wrth gadw trosolwg ar Gynllun y Cyngor i gyd. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried gweithredu fel arweinydd ar gyfer thema Tlodi, a oedd yn cynnwys nifer o is-flaenoriaethau a oedd yn croesi ar draws portffolios.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol bod y themâu wedi'u halinio'n agos ag Amcanion Lles, a bod y Cynllun wedi'i groesawu'n fawr gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hyd yma. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar Ran Dau Cynllun y Cyngor a fyddai'n cael ei rannu gydag Aelodau cyn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor erbyn mis Mai.

Siaradodd y Cynghorydd Jones am bwysigrwydd ffordd effeithiol o fesur yn erbyn targedau, a deall newidiadau yn y fformat o'r flwyddyn flaenorol. Gan ymateb i sylwadau am gysonder â chynlluniau cenedlaethol, dywedodd y Prif Weithredwr y dylai'r ddogfen gwmpasu beth allai'r Cyngor ei ddarparu fel yr unig gorff cyhoeddus neu'r corff cyhoeddus arweiniol. O ran blynyddoedd blaenorol, byddai adroddiadau monitro perfformiad yn dangos cynnydd yn erbyn cerrig milltir a chanlyniadau gwirioneddol, wedi'u cefnogi gan ddata a Dangosyddion Perfformiad Allweddol lle roeddent ar gael/yn bosibl.

Eglurodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol y byddai Rhan Dau Cynllun y Cyngor yn cefnogi camau gweithredu a nodwyd trwy gynnwys mesuriadau, tasgau a risgiau.

Gan ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd Collett ar thema Tlodi, gofynnodd y Prif Weithredwr i'r swyddogion gyfeirio dan 'Tlodi Incwm' at gefnogaeth sydd ar gael, fel Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Byddai pryderon y Cynghorydd Collett am rhent teg yn y sector tai preifat yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau.

Siaradodd y Cynghorydd Roberts o blaid yr adroddiad a'r dull o ddelio â materion trawsbynciol.

Croesawodd y Cynghorydd Johnson waith ar eiddo gwag a siaradodd am y potensial i wella manau gwyrdd ar ystadau sy'n eiddo i'r Cyngor. Awgrymodd y Prif Weithredwr fod hyn yn cael ei gyfeirio at Fwrdd Aelodau Lleihau Carbon Newid Hinsawdd Cyngor Gwyrdd, sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd. Siaradodd y Cynghorydd Thomas o blaid hyn, ynghyd â chamau gweithredu ehangach i ddarparu buddion amgylcheddol.

Amlygodd y Cynghorydd Banks effaith mentrau tlodi tanwydd ar gymunedau.

Wrth dderbyn cynnwys Cynllun y Cyngor, dywedodd y Cynghorydd Jones ei bod hefyd yn bwysig ystyried cysonder fframwaith Cynllun y Cyngor ar y cam hwn. Gan ymateb i awgrym gan y Prif Weithredwr, cynigiodd bod y Pwyllgor yn arwain ar thema Tlodi. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Collett.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi drafft Rhan Un Cynllun y Cyngor 2021-22 cyn ei rannu â'r Cabinet ym mis Mawrth 2021; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn cael ei gydnabod fel arweinydd thema Tlodi.

61. CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2021/22

Gwahoddodd y Prif Weithredwr sylwadau am adroddiad y Cabinet a'i argymhellion i'r Cyngor Sir osod cyllideb gyfreithlon a chytbwys ar gyfer 2021/22 yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror 2021. Byddai unrhyw adborth yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet fel rhan o'r broses honno.

Roedd yr argymhellion yn nodi y dylid gosod cyllideb gyfreithlon a chytbwys ar sail y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro presennol, gyda gofyniad isafswm cyllideb is oherwydd nid oedd darpariaeth yn natganiad cyllideb Llywodraeth y DU ar gyfer unrhyw ddyfarniadau cyflog blynyddol i'r sector cyhoeddus. Roedd hyn yn dal i fod yn risg agored a byddai'r Cyngor yn parhau i wneud sylwadau arno am gymorth ariannol. Yn ogystal â diogelu gwasanaethau, byddai'r gyllideb arfaethedig yn darparu ymgodiad o ran cyllid ar gyfer addysg ac ysgolion i helpu â'r sefyllfa sy'n dirywio o ran diffygion ysgolion trwyddedig mewn ysgolion uwchradd a galw ychwanegol am wasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Roedd y cynnydd arfaethedig o ran Treth y Cyngor o 3.95% (ar gyfer elfen y Cyngor Sir) yn bodloni disgwyliadau i gadw'r cynnydd ar lefel fforddiadwy ac islaw 5%.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol drosolwg o'r prif newidiadau i sefyllfa'r gyllideb ers yr adroddiad diwethaf, gan ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid grant gan Lywodraeth Cymru (LIC) fel a nodwyd yn yr adroddiad.

I gefnogi'r argymhellion, soniodd y Cynghorydd Roberts am y pwysau cynyddol a'r galw ar wasanaethau'r Cyngor a'r effaith o ganlyniad i'r sefyllfa frys ar y Cyngor a phreswylwyr. Atgoffodd Aelodau am yr arbedion effeithlonrwydd corfforaethol a oedd wedi'u cyflawni a dywedodd nad oedd unrhyw arbedion effeithlonrwydd pellach wedi'u nodi trwy ymgynghori â phwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Wrth siarad o blaid hefyd, dywedodd y Cynghorydd Banks fod pwysau mewn Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn parhau i fod yn risg barhaus, er bod swm ychwanegol wedi'i neilltuo, a bod y Cyngor yn edrych ar ddatrysiadau tymor hwy.

Gan ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Shotton a Dunbobbin am yr angen i adolygu fformiwla ariannu llywodraeth leol genedlaethol, dywedodd y Prif Weithredwr fod sylwadau wedi'u gwneud yn ymateb y Cyngor i'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro.

Ailadroddodd y Cynghorydd Jones yr angen am ddatrysiad cenedlaethol i fynd i'r afael â phwysau cynyddol parhaus ar Leoliadau y Tu Allan i'r Sir. Cytunodd y Cynghorydd Roberts a dywedodd fod y Cyngor yn parhau i lobio ar y mater hwn. Roedd yn rhannu pryderon y Cynghorydd Jones am effaith y

fformiwla ariannu ar lefelau Treth y Cyngor. Ymatebodd Swyddogion i gwestiynau am bwysau mewn arbedion effeithlonrwydd Canolog a Chorfforaethol a heb eu gwireddu yn y portffolio Llywodraethu. Cadarnhaodd Swyddogion y byddai diweddariad ar gyllid grant yn cael ei rannu gydag Aelodau pan fyddai'r Setliad Llywodraeth Leol Terfynol yn dod i law ym mis Mawrth.

Cynigiodd y Cynghorydd Jones fod yr argymhellion yn cael eu cefnogi, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Collett.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r chwe argymhelliad sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cabinet.

Ar y pwynt hwn, cafwyd seibiant byr cyn i'r eitemau a oedd yn weddill gael eu hystyried.

62. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2020/21 (MIS 9) A MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2020/21 (MIS 9)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Cyllid adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ym Mis 9, a sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf 2020/21 ym Mis 9 cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Monitro Cyllideb Refeniw

Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol petai popeth yn aros fel yr oedd, ac roedd yn ystyried sefyllfa ddiweddaraf cyhoeddiadau Grantiau Argyfwng Llywodraeth Cymru.

O ran Cronfa'r Cyngor, roedd y sefyllfa a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn - heb unrhyw gamau gweithredu newydd i leihau pwysau costau a gwella'r elw o gynllunio effeithlonrwydd - yn warged gweithredol o £0.372 miliwn, gan adael balans cronfa wrth gefn a ragwelwyd o £1.787 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd yr amcanestyniad hwn yn cynnwys arbedion a gyflawnwyd trwy adolygu gwariant dianghenraid yn barhaus a rheoli swyddi gwag. Roedd y rhesymau dros y symud ffafriol o £0.102 miliwn o Fis 8 wedi'u nodi yn adran 1.04 yr adroddiad. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y risgiau ariannol allweddol a risgiau newydd, yn ogystal â'r sefyllfa ar gyllid argyfwng wedi'i neilltuo, cyflawniad arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn, arian wrth gefn a balansau fel y nodwyd yn yr adroddiad.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, byddai tanwariant arfaethedig o £1.641 miliwn yn gadael balans terfynol heb ei neilltuo o £3.650 miliwn, a oedd yn uwch na'r canllawiau a argymhellwyd ar wariant.

Yn ystod y cyflwyniad, gofynnodd y Cadeirydd am saib i atgoffa Aelodau am y canllawiau a ddosbarthwyd eisoes ar Gyfarfodydd Mynychu o Bell: dylai pawb sy'n bresennol ymddwyn mor ffurfiol ag y byddent mewn cyfarfod yn Neuadd y Sir.

O ran risgiau sy'n dod i'r amlwg, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Cynghorydd Thomas fod sylwadau'n cael eu cyflwyno i LIC am adennill y costau adfer cyfalaf o'r llyfogydd difrifol diweddar.

Ar ôl cwestiynau, byddai swyddogion yn darparu ymateb ar wahân am y mathau o ddirwyon sy'n ymwneud â'r amrywiant mewn Llywodraethu a'r rheswm dros y cynnydd o ran cronfeydd wrth gefn yswiriant. Byddai eglurhad pellach yn cael ei rannu ar nifer y defnyddwyr gwasanaeth oedd wedi'u heffeithio gan daliadau anghywir dan y Rheoliadau Asesiad Ariannol a'r math o wasanaethau cymorth dan sylw. Byddai ymateb i gais y Cynghorydd Heesom am fanylion cyswllt yn y portffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi i egluro'r symudiad o ran amrywiadau o Fis 8 yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Heesom, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Jones.

Rhaglen Gyfalaf

Y cyfanswm ar gyfer y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2020/21 oedd £76.962 miliwn, gan ystyried bod yr holl symiau a ddygwyd ymlaen ac arbedion yn trosglwyddo'n ôl i'r rhaglen. Roedd newidiadau yn ystod y cyfnod yn bennaf oherwydd cyflwyno ffrydiau ariannu grant ac ailbroffilio'r gyllideb. Roedd crynodeb o'r sefyllfa am wariant cyfalaf ym Mis 9 yn dangos tanwariant a ragwelir o £4.352 miliwn ar Gronfa'r Cyngor i gael ei ddwyn ymlaen i 2021/22 a sefyllfa o fantoli'r gyllideb ar y Cyfrif Refeniw Tai. Rhoddwyd crynodeb o symiau i'w dwyn ymlaen i 2021/22 ynghyd â rhai dyraniadau ychwanegol fel a nodwyd yn yr adroddiad. Roedd y sefyllfa ar ariannu cynlluniau a gymeradwywyd yn 2020/21 gan gynnwys effaith derbyniadau cyfalaf ac arbedion a gyflawnwyd yn dangos gwarged diwygiedig a ragwelir o £1.267 miliwn. Roedd diweddariad ar Raglen Gyfalaf 2021/22 - 2023/24 yn dangos bod y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro wedi cael effaith gadarnhaol o £1.406 miliwn.

Gan ymateb i geisiadau gan y Cynghorydd Jones a'r Cynghorydd Heesom, cytunodd swyddogion i ddarparu dadansoddiad mwy manwl o fuddsoddiad mewn trefi sirol.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Jones, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Bateman.

PENDERFYNWYD:

- (a) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 Mis 9, fod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno adrodd i'r Cabinet; a
- (b) Ar ôl ystyried Adroddiad Rhaglen Gyfalaf 2020/21 Mis 9, fod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno adrodd i'r Cabinet.

63. CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL CYNGOR SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Gynodeb Archwilio Blynyddol 2019/20 (yr hen Adroddiad Gwella Blynyddol a Llythyr Archwilio Blynyddol) a oedd yn crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio a rheoleiddio a wnaed eisoes yn y Cyngor gan Archwilio Cymru. Roedd yr adroddiad wedi dod i gasgliad cadarnhaol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio gwelliannau ac adrodd. Ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Roedd mân gynigion newydd ar gyfer gwelliant a chynigion ar gyfer datblygiad yn codi o dri o'r adolygiadau.

Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi croesawu'r adroddiad a chafwyd trafodaeth am ddisgrifiad o strategaeth ariannol 'risg uchel' y Cyngor a oedd yn adlewyrchu ei amharodrwydd i beryglu gwasanaethau a dibynnu ar y Setliad Llywodraeth Leol i fantoli'r gyllideb.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Jones, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Woolley.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau gan Gynodeb Archwilio Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2019/20.

64. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am, a daeth i ben am 12.55pm)

.....
Y Cadeirydd